Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

28 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | **Adroddiad Perfformiad 2016-2017**<br>**Adroddiad ar gyfer cyfnod un (1 Ebrill 2016 hyd 31 Gorffennaf 2016)** |
| **Cyfeirnod y Prosiect:** | **Papur B B 56.16** |
| **Paratowyd y Papur gan:** | **Mark Hughes** |
| **Cyflwynwyd y Papur gan** | **Emyr Roberts** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Ystyried perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cyfnod adrodd (1 Ebrill 2016 hyd 31 Gorffennaf 2016)** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br>• Defnyddio gwaith craffu a llywodraethu ynglŷn â pherfformiad er mwyn adrodd hyn i Lywodraeth Cymru<br>• Darparu cyngor a chymorth ynglŷn ag addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad |

| | |
|---|---|
| Effaith: | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn cynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ffyrdd o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â'r canlynol:<br>• **Edrych ar y tymor hir –** mae'r dangosyddion yn yr adroddiad perfformiad yn adeiladu darlun o newid ar gyfer y tymor hir.<br>• **Defnyddio dull integredig** – mae'r adroddiad perfformiad yn rhychwantu ehangder ein gwaith.<br>• **Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth –** mae'r adroddiad perfformiad yn cael ei wneud ar gael i'r cyhoedd.<br>• **Gweithio mewn modd cydweithredol** – mae nifer ein dangosyddion ni yn olrhain newid sy'n gofyn am fewnbwn gan nifer o bartneriaid.<br>• **Atal problemau rhag digwydd –** mae nodi problemau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar yn yr adroddiad perfformiad yn caniatáu llunio cynlluniau a blaenoriaethau i gael yr effaith orau. |

## Diben

1. Mae cyfnod un ar gyfer adrodd am berfformiad corfforaethol, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Gorffennaf 2016, bellach wedi dod i ben, a'r adroddiad perfformiad wedi cael ei baratoi i'r Bwrdd graffu arno cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae adrodd perfformiad yn cael ei gynnal unwaith bob pedwar mis.

## Cefndir

2. Mae'r adroddiad perfformiad corfforaethol yn un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein gwaith cyflawni a chefnogi cynllunio strategol.

3. Mae'r Fframwaith Perfformiad (Atodiad 1) yn cynnwys tair elfen wahanol:

- Adroddiad Crynhoi Perfformiad un dudalen sy'n rhoi trosolwg un dudalen o'r prif bwyntiau ynglŷn â pherfformiad yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2014-2017, Cynllun Busnes 2016-2017 a'r Achos Busnes ar gyfer creu Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Adroddiadau Cynnydd sy'n rhoi sefyllfa ddiweddaraf ein dangosyddion corfforaethol a'n mesurau perfformiad ni ar gyfer pob un o'n pum thema 'Da ar gyfer'.
- Dangosfwrdd Cynllun Busnes sy'n rhoi trosolwg un dudalen o'r cynnydd rydym wedi'i wneud ynglŷn â thargedau ein Cynllun Busnes 2016-2017, yn ogystal â nifer fach o ddangosyddion.

## Asesu

4. Ar gyfer y Dangosfwrdd Cynllun Busnes, mae ein perfformiad ar gyfer cyfnod un eleni o adrodd am berfformiad corfforaethol yn cael ei ddangos wrth ochr yr adroddiad blaenorol ar gyfer diwedd y flwyddyn 2015-2016:

| | Diwedd y flwyddyn 2015-2016 | **Cyfnod 1 1 Ebrill 2016 hyd 31 Gorffennaf 2016** |
|---|---|---|
| ‘Gwyrdd’ | 28 | **24** |
| ‘Oren’ | 9 | **7** |
| 'Coch' | 3 | **2** |
| I’w gadarnhau | 1 | **0** |
| Cyfanswm | 41 | **33** |

5. Gofynnir i'r Bwrdd nodi dau adroddiad 'coch' a saith adroddiad 'oren’:

- Amgylchedd Morol, Daearol a Dŵr Croyw (Coch): Mae'r perfformiad ar gyfer Cymru o 26% yn parhau i fod yn anffafriol yn erbyn y targed o 95% yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru. Ni fydd ein gwaith ar ei ben ei hun yn cyflawni'r gwelliannau

gofynnol ar gyfer cyflwr nodweddion safle. Mae adnoddau sylweddol yn cael eu rhoi i'n rhaglen ni o gamau gweithredu ar gyfer safleoedd arbennig.

- Mynegai Ymgysylltiad Staff (Coch). Lansiwyd Arolwg Pobl 2016 ar 11 Ebrill 2016, ac roedd yn rhedeg am dair wythnos. Roedd yr arolwg yn nodi mynegai ymgysylltiad staff o 41%. Mae hyn yn ostyngiad o 7% o gymharu â mynegai ymgysylltiad staff Arolwg Pobl 2015 o 48%.
- Rydym yn gwneud cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu strategol tystiolaeth ac wedi cyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (Oren). Bydd y Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cael ei gyhoeddi ar amser, a disgwylir adroddiad blynyddol am gynnydd y Cynllun Gweithredu Strategaeth Tystiolaeth erbyn mis Mawrth 2017 – fodd bynnag, mae nifer o elfennau i'r cynllun hwn yn fwy na'r disgwyl, yn enwedig y Fframwaith Monitro Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harchif data amgylcheddol (Oren). Mae'r holl ddata ansawdd dŵr ac ecoleg bellach wedi cael ei dynnu o systemau etifeddol a'i gadw. Mae'r modiwl ansawdd dŵr newydd ar y ffordd i gyrraedd y targed ac mae wrthi'n cael ei dreialu. Mae'r modiwl ecoleg yn dal i gael ei ddatblygu, ac fe fydd ychydig y tu ôl i'r dyddiad arfaethedig ar gyfer mynd yn fyw ym mis Awst. Mae'r gwaith o symud EcoSys hefyd wedi cael ei ohirio am dri mis, ond mae cynnydd da'n cael ei wneud o ran cyrraedd y terfyn amser diwygiedig hwn.
- Amgylchedd Dŵr (Oren). Mae statws cyfredol ac ar gyfer y dyfodol yn cael eu hadrodd yn oren oherwydd y cynllunio cynnar sydd ei angen i nodi a dyrannu camau gweithredu, a phroblemau ynglŷn ag adnoddau. 2016 yw blwyddyn gyntaf ail gylch y Cynllun Rheoli Basn Afon, sy'n para am chwe blynedd. Mae'r cynllun yn ymroddi i gyflawni mesurau cenedlaethol a mesurau lleol. Byddwn yn dilyn cynnydd yn seiliedig ar gytuno ar gynllun cyflawni gweithredol ar gyfer ail gylch y Cynllun Rheoli Basn Afon, a ph'un a ydym ar y ffordd i gyflawni ein hymroddiadau strategol yn rhaglen fesurau'r cynllun i gyflawni gwelliannau amgylcheddol yn y cyrff dŵr targededig erbyn 2021.
- Rydym yn rheoli achosion o blâu a chlefydau planhigion (Oren). Rydym wedi arolygu pum safle ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru lle roedd angen cydymffurfio erbyn 31 Mawrth 2016 – roedd pedwar ohonynt yn cydymffurfio (80%) ac un nad oedd yn cydymffurfio.
- Rydym yn cynnal asedau amddiffyn rhag llifogydd perygl uchel ac asedau rheoli perygl llifogydd arfordirol, gan roi ein blaenoriaeth i'r ymdrechion hynny sy'n amddiffyn rhag y risgiau uchaf (Oren). Bellach mae 98% (yn erbyn targed o 99%) o asedau mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cynnal ar gyfer systemau amddiffyn rhag llifogydd risg uchel yn eu cyflwr targed.
- Rydym yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad, gan ganolbwyntio ar bobl a lleoedd a fydd yn elwa mwyaf (Oren). Rydym yn parhau i hyrwyddo Cod y Cefn Gwlad a chodau cysylltiedig; rydym y tu ôl gyda gweithredu'r cynllun cyfathrebu ar gyfer y maes hwn o waith. Rydym wedi drafftio cod defnyddwyr llwybr aml-ddefnydd gyda rhanddeiliaid. Rydym wedi gweithio gyda Chroeso Cymru ar y Flwyddyn Antur, ond nid ydym wedi llwyddo i fanteisio ar hyn cymaint ag yr oeddem yn disgwyl.
- Datblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd (Oren). Mae'r dyddiad targed o 31 Mawrth 2017 wedi cael ei symud, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, i haf

2017. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod ar y ffordd i gyflawni Datganiad Llesiant erbyn 31 Mawrth 2017, a fydd yn rhan fawr o'n Cynllun Corfforaethol ni.

6. Bydd y Prif Weithredwr yn darparu crynodeb llafar o'r cyflawniad yn ystod cyfarfod y Bwrdd, a bydd aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol ar gael i ateb cwestiynau gan aelodau'r Bwrdd.

7. Bydd yr adroddiad am berfformiad yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog Adnoddau Naturiol, a bydd copi o’r adroddiad perfformiad yn cael ei roi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn hysbysu'r cyhoedd ac eraill.

**Argymhelliad/Argymhellion**

8. Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- Defnyddio gwaith craffu a llywodraethu ynglŷn â pherfformiad er mwyn adrodd hyn i Lywodraeth Cymru
- Darparu cyngor a chymorth ynglŷn ag addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad

**Risgiau Allweddol**

9. Mae gwaith y Bwrdd o graffu ar berfformiad sefydliadol yn elfen ofynnol o ddangos ein bod yn cyflawni yn erbyn Cynlluniau Corfforaethol a Buses.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i ddarparu'r Fframwaith Perfformiad.

**Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb**

11. Ddim yn berthnasol.

**Mynegai o Atodiadau**

Atodiad 1 – adroddiad am berfformiad 2016-2017 (1 Ebrill 2016 hyd 31 Gorffennaf 2016)